## ROCP 52, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

Adolygiad o flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd | Review of the Committee's priorities for the Sixth Senedd

Ymateb gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Evidence from Welsh Local Government Association

# Dogfen Friffio

07/09/2023

# Adolygiad o Flaenoriaethau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

## Cyflwyniad

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol (ALl) yng Nghymru. Mae awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.

2. Mae CLlLC yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol, gydag arweinwyr pob awdurdod lleol yn penderfynu ar bolisi drwy'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor ehangach CLlLC. Mae CLlLC yn penodi uwch aelodau fel Llefarwyr a Dirprwy Lefarwyr i roi arweinyddiaeth genedlaethol ar faterion polisi ar ran llywodraeth leol.

3. Mae CLlLC yn croesawu'r cyfle i helpu i lywio prif flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd.

## Adborth ar flaenoriaethau'r Weinyddiaeth

4. "Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgeisiau a'i blaenoriaethau yn ei Rhaglen Lywodraethu newydd. Mae Llywodraeth Leol yn rhannu ac yn croesawu llawer o'r blaenoriaethau hyn, yn cynnwys y pwyslais ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

5. Fel un o'r darparwyr gwasanaethau cyhoeddus craidd yng Nghymru, mae cynghorau lleol yn ganolog i wireddu nifer o uchelgeisiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig felly bod llywodraeth leol yn parhau i gymryd rhan mor gynnar â phosibl wrth ddylunio a llunio'r blaenoriaethau polisi a deddfwriaethol sy'n dod i'r amlwg. Yn awr yn fwy nag erioed, mae hefyd yn hollbwysig bod

uchelgeisiau'r Llywodraeth hon yn cyd-fynd â gallu llywodraeth leol i'w darparu, o ystyried y toriadau parhaus, costau cynyddol a'r ffaith bod Llywodraeth Leol yn parhau i golli arbenigedd a chapasiti.

6. Mae gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau enfawr, ac mae hyn wedi'i ddwysau ymhellach gan ddiffyg cenedlaethol o ran gweithlu medrus yn y mwyafrif o feysydd canolbwynt blaenoriaethol y Weinyddiaeth Newid Hinsawdd. Felly, mae'n hanfodol bod y Gweinidog a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r byd academaidd a diwydiant er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn a chefnogi datblygu'r amrywiaeth ofynnol o sgiliau ac arbenigedd sydd eu hangen i ddarparu'r meysydd canolbwynt blaenoriaethol ac adeiladu cadernid ac arbenigedd cyrff cyhoeddus.

7. Rydym yn cefnogi Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru mewn egwyddor, ond hoffem bwysleisio bod rhaid dilyn dull cytbwys o ran trafnidiaeth. Er mwyn rhoi'r hierarchaeth cludiant cynaliadwy ar waith, mae'n hanfodol bod darpariaeth ddigonol i alluogi'r dull cludiant sy'n flaenoriaeth i gael ei ddefnyddio. Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn teithio llesol, cludiant cyhoeddus a gwefru cerbydau trydan os ydynt am annog y newid mewn ymddygiad sy'n cael ei geisio ac sydd ei angen. Mae buddsoddiad yn y rhwydwaith rheilffyrdd yn parhau'n hanfodol nid yn unig er diogelwch gyrwyr ceir ond hefyd i fysiau, beicwyr, cerbydau trydan, cerbydau'r gwasanaethau brys a cherbydau masnachol.

8. Mae CLlLC yn cefnogi dyhead y Prif Weinidog o '*roi'r amgylchedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau*' ac mae angen i hyn ategu adferiad economïau lleol, cefnogi ymdrechion i gynnal cymunedau gwledig ac arfordirol a chynorthwyo i wireddu blaenoriaethau lleol yn gyffredinol.

9. Rydym yn croesawu cynnwys y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a Safon Ansawdd Tai Cymru ymysg y blaenoriaethau hynny. Bydd y rhain yn cyfrannu at ddatgarboneiddio a threchu tlodi, ac adeiladu ar waith a wnaed eisoes i godi safonau tai.

10. Yn hanesyddol, mae grantiau a rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi tueddu i gael eu datblygu ar wahân, gan gynnig fawr ddim cyfleoedd i gynyddu manteision a chyfleoedd am drawsffrwythloni. Rydym yn gobeithio mai'r Weinyddiaeth newydd

fydd y catalydd i sicrhau bod polisïau, blaenoriaethau a grantiau sy’n dod i’r amlwg yn cyd-fynd yn well ar draws gwahanol bortffolios LlC, er mwyn galluogi darparu prosiectau a gweithgareddau cyfannol ac aml-fudd fel sy’n ofynnol gan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Meysydd Blaenoriaeth a Awgrymir

### Newid yn yr Hinsawdd

11. Mae pwyslais cryf ar liniaru a datgarboneiddio er mwyn bodloni’r targedau estynedig ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, hyd yma mae’r pwyslais cryf hwn wedi symud y sylw oddi wrth yr angen i addasu i newidiadau presennol, yn enwedig gyda chynnydd o ran llifogydd a lefel y môr. Ychydig iawn o gynnydd a fu yn y maes hwn oherwydd amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys diffyg polisïau sy’n galluogi, ac astudiaethau ar raddfa fawr er mwyn hwyluso adleoli cymunedau neu ddewisiadau rheoli eraill. **Byddem yn annog y Pwyllgor i edrych ar resymau pam nad yw addasu i newid yn yr hinsawdd a chynnydd o ran lefel y môr yn cael yr un blaenoriaeth â datgarboneiddio, a sut y gellir ei ymgorffori fel rhan o’r broses wneud penderfyniadau mewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.** Mae angen addasu hefyd i ddelio â goblygiadau eraill newid yn yr hinsawdd megis ymddangosiad plâu a chlefydau newydd a gwres eithriadol a mudo rhyngwladol ar raddfa fawr. Mae angen cynllunio ymlaen i baratoi ac adeiladu gwytnwch i wynebu’r materion hyn sy’n dod yn amlwg.

### Plannu Coed

12. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddylunio rheoliadau a chynllunio strategol effeithlon a modern ar gyfer plannu coed er mwyn sicrhau bod buddion niferus (ar gyfer bioamrywiaeth a charbon a hamdden a’r economi) yn cael eu cyflawni yn hytrach nag un ar draul y llall. Ar hyn o bryd, mae nifer fawr o ffermydd yn cael eu prynu gan gwmnïau gwrthbwyso carbon er mwyn eu troi’n blanhigfeydd coed helaeth. Er bod hyn yn helpu (yn yr hirdymor) i gyflawni amcanion storio a dal carbon, mae hefyd yn atal ffermwyr ifanc rhag dechrau arni ar adeg pan fo angen i Gymru fod yn hunan-ddibynnol a chynyddu lefelau cynhyrchu bwyd ar ôl Brexit.

**Dylai'r Pwyllgor edrych ar sut ddylai LlC weithio'n agosach gyda Pharciau Cenedlaethol ac eraill i sicrhau bod gwaith plannu coed yn cael ei wneud yn y lleoedd iawn a'i fod yn ategu strategaethau gwaith adfer mawndir a dal a storio carbon a ddatblygwyd gan Barciau Cenedlaethol.**

## Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol neu risgiau hinsawdd

13. Rydym yn croesawu'r buddsoddiad parhaus mewn Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Strategaeth Genedlaethol ddiweddaraf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Fodd bynnag, mae pwyslais clir y llywodraeth ar amddiffyn cartrefi yn hytrach na busnesau. Mae'r polisi hwn yn debygol o effeithio ar ffyniant ac economïau lleol ac nid yw'n adlewyrchu'r uchelgais a nodir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mewn gwirionedd, ni fyddai llawer o Barciau Busnes (Trefforest, Cei Connah er enghraifft) yn gymwys i gael cyllid LlC er mwyn cynyddu eu lefel o amddiffyniad yn erbyn perygl llifogydd a chynnydd yn lefel y môr. **Byddem yn annog y Pwyllgor i gymryd diddordeb gweithredol yn y maes hwn a nodi sut caiff y meysydd hyn, sy'n ganolog i'r economi leol a chyflogaeth, eu diogelu a'u hariannu yn wyneb risgiau cynyddol.**

Mae llawer o ardaloedd mewndirol ac arfordirol yng Nghymru yn debygol o weld newid mewn dulliau rheoli oherwydd risgiau cynyddol a'r ffaith nad yw amddiffynfeydd yn fforddiadwy. Fodd bynnag, bydd costau anferthol ynghlwm â datgomisiynu asedau ac isadeiledd. Mae'r angen i gael polisïau cenedlaethol a ffrydiau ariannu sy'n galluogi i gefnogi'r trawsnewid hwn yn allweddol, ond heb eu datblygu eto. Mae ein penderfyniadau a'n gweithgareddau hefyd yn ymwneud â sicrhau nad ydym yn amlygu mwy o bobl at risgiau hinsawdd. Mae polisïau cenedlaethol y tu allan i'r Weinyddiaeth hon hefyd yn allweddol i gefnogi hyn, gyda TAN15 yn alluogwr mawr, tra bod eraill yn gwrthdaro'n uniongyrchol â'r cyfrifoldeb hwn. **Byddem felly'n annog y Pwyllgor i archwilio sut y gall polisïau a chynlluniau sy'n gor-gyffwrdd ategu'r naill a'r llall yn well ond hefyd dynodi sut mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio at gyfer datgomisiynu a thrawsnewid i ddewisiadau rheoli mwy cynaliadwy yn erbyn risgiau'r hinsawdd.**

## Cludiant

14. Mae CLlLC yn cefnogi'r cynigion uchelgeisiol yn Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. Bydd ei gweithredu yn golygu bod angen canolbwyntio ar newid ymddygiad er mwyn cyflawni'r newid moddol a ddymunir. **Byddem yn annog y Pwyllgor i ymchwilio pa gamau a gymerir er mwyn atgyfnerthu'r newid ymddygiad hwn a sicrhau bod polisïau yn addas ar gyfer cymunedau gwledig, fel nad ydynt o anfantais i ardaloedd gwledig, nac yn effeithio'n anghymesur arnynt.**

## Sgiliau ac Arbenigedd

15. Mae Cymru yn wynebu diffyg sylweddol o weithwyr medrus, sy'n effeithio ar allu Cynghorau, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector preifat i recriwtio a llenwi swyddi arbenigol. Gwelir prinder ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Newid yn yr Hinsawdd, Ynni, Tai, Coedwigaeth a Draenio Cynaliadwy. Gellir egluro hyn yn rhannol oherwydd diffyg cyrsiau addas a ddarperir gan y byd academaidd, diffyg cyllid ac anhawster cynghorau i dalu cyflogau cystal â'r sector preifat. **Byddem yn annog y Pwyllgor i ymchwilio sut dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r byd academaidd a'r diwydiant perthnasol i gefnogi ac ariannu datblygiad rhaglenni addysg arbenigol sy'n gysylltiedig â darpariaeth meysydd blaenoriaeth.**

## Grantiau Llywodraeth Cymru

16. Yn aml, mae meini prawf cymhwyso ar gyfer grantiau, anallu i ddarparu arian cyfatebol gan ddefnyddio grantiau eraill (yn cynnwys grantiau Llywodraeth y DU mewn rhai achosion), a diffyg gwaith ar draws adrannau LlC, wedi cyfyngu ar allu cynghorau i ddarparu gweithgareddau aml-fudd. Hefyd, mae rhaglenni'n tueddu i beidio cyd-fynd â'i gilydd, sy'n ei gwneud yn anodd iawn casglu cyllid. Yn unol â meysydd pwyslais blaenoriaeth y Weinyddiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd angen dull mwy cyfannol at ddarparu, gan ystyried lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar y cyd yn hytrach nag

ar wahân. **Dylai'r Pwyllgor ymchwilio sut y gall y grantiau a rhaglenni amrywiol fod yn fwy hyblyg drwy well synergedd a chylch gwaith ehangach.**

[redacted]

[redacted]

[redacted]